



Cynnig i Ffederaleiddio Ysgol Talysarn ac Ysgol Brynaerau – ‘Ffederasiwn Talaerau’ Dogfen ymgynghori

Fersiwn i blant

Mehfin 2019

CYFLWYNIAD

Mae Cyngor Gwynedd yn ystyried newid strwythur llywodraethol Ysgol Brynaerau ac Ysgol Talysarn trwy ffederaleiddio'r ddwy ysgol.

Cyn penderfynu ar gynbig i ffederaleiddio, mae'n rhaid i'r cynigwyr (sef Cyrff Llywodraethol y ddwy ysgol) roi gwybod i chi fel disgyblion yr ysgol, yn ogystal ag ymgynghorai eraill, a rhoi cyfle i chi fynegi barn ar y cynbig.

Mae'r llyfryn hwn yn ceisio egluro beth fyddai ffederaleiddio Ysgol Brynaerau ac Ysgol Talysarn yn ei olygu i chi fel disgybl.



Beth yw'r **cynllun** ?

Mae cyrff llywodraethol Ysgol Brynaerau ac Ysgol Talysarn wedi hysbysu Adran Addysg Cyngor Gwynedd o'u bwriad i ymgynghori ar y bwriad i ffederaleiddio'r ddwy ysgol.

Beth yw **ffederasiwn** ?

Ffederasiwn yw pan mae dau neu fwy o ysgolion yn cydweithio'n ffurfiol, yn bennaf trwy rannu **un corff llywodraethol.**

Beth yw **corff llywodraethol** ?

Corff llywodraethol yw'r grŵp o bobl sy'n gweithio'n agos hefo pennaeth a staff eich ysgol i sicrhau bod yr ysgol yn eich addysgu a dysgu chi'n llwyddiannus.

Mae'r corff llywodraethu'n atebol am berfformiad yr ysgol, h.y. canlyniadau'r ysgol, a'r ffordd mae cyllid ac adnoddau'r ysgol cael eu defnyddio.

Beth fydd **enw'r** Ffederasiwn?

Yr enw a gynigir ar gyfer y
ffederasiwn yw...

Ffederasiwn Talaerau

Pryd fydd y newid yma'n digwydd?

Os caiff y cynnig ei dderbyn, mi fydd y
ffederasiwn yn dod i rym ar...

6 o Ionawr 2020

Beth mae'r **newid** yma yn ei **olygu**?

- Nid yw ffedereiddio'r ddwy ysgol yn golygu unrhyw newid mawr
- Bydd Ysgol Brynaerau ac Ysgol Talysarn yn parhau fel dwy ysgol **ar wahân**
- Gall olygu fod un pennaeth yn gyfrifol am y ddwy ysgol ac yn rhannu ei hamser yn deg rhwng y ddwy ysgol
- Bydd eich gwisg ysgol yn aros 'run fath
- Ni fydd newid i enw'r ysgol
- Ni fydd disgwyl i blant nac athrawon presennol symud o ysgol i ysgol.

Beth yw **manteision** Ffederaleiddio?

- Does dim angen symud o ysgol i ysgol
- Gwella arweinyddiaeth a sicrhau trefn addysgol dda i'r dyfodol
- Gwella ansawdd addysg
- Gwneud gwell defnydd o adnoddau e.e. chwaraeon a TGCh
- Rhoi cyfle i rannu a datblygu gwybodaeth a sgiliau
- Gall ddarparu cyfleoedd gwell i ddisgyblion gymdeithasu

Beth ydych chi'n ei feddwl o'r cynllun?

Cyn i benderfyniad gael ei wneud ar y ffordd ymlaen, rydym eisiau clywed eich barn chi am y cynnig i ffederaleiddio Ysgol Brynaerau ac Ysgol Talysarn.

Sut ydych chi yn cael ymateb?

Mae croeso i unrhyw ddisgybl anfon sylwadau at y Cyngor i fynegi barn neu gwblhau holiadur.

Mae angen i'r Cyngor dderbyn sylwadau erbyn **15 o Gorffennaf 2019**.

Angen mwy o wybodaeth?

- Am fwy o wybodaeth a chopi o'r holiadur, cysylltwch gyda'ch pennaeth neu ewch i safle we yr ysgol.
- Gallwch gysylltu â'r Cyngor drwy e-bostio: moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru
- Gallwch anfon llythyr/sylwadau/holiadur drwy'r post at:

Ysgol Talysarn
Coedmadog Rd,
Talysarn,
Caernarfon
LL54 6HR

Ysgol Brynaerau
Pontllyfni,
Caernarfon
LL54 5EU